

Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Cymraeg Ail iaith

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Nodau ac amcanion**
- 3. Cynnwys y pwnc**
- 4. Amcanion asesu a'u pwysoliadau**
- 5. Cynllun asesu**
- 6. Teitlo**

Dylid darllen y ddogfen hon, Meini Prawf Cymeradwyo, ar y cyd â'r Amodau Cydnabod Safonol ac Egwyddorion Cymwysterau TGAU (2016).

Cyflwyniad

1. Bydd Cymwysterau Cymru ond yn cymeradwyo i'w dyfarnu yng Nghymru y manylebau hynny sy'n bodloni'r holl ofynion yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rheiny a amlinellir yn Egwyddorion Cymwysterau TGAU a'r Amodau Cydnabod Safonol.

DRAFT

Nodau ac amcanion pwnc

Amcanion y cymhwyster Cymraeg Ail Iaith yw:

- galluogi ymgeiswyr i ddeall a defnyddio iaith ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd;
- datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith er mwyn galluogi ymgeiswyr i gyfathrebu ac i ryngweithio'n hyderus a digymell mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau perthnasol/penodedig, ac er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu gafael ar yr iaith ymhellach;
- datblygu sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu mewn modd integredig, gan bwysleisio sgiliau gwrando a siarad;
- paratoi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eu cymuned;
- meithrin chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg a mwynhad ohoni, er mwyn galluogi ymgeiswyr i fod yn ymwybodol o fuddion datblygu iaith.

Cynnwys y pwnc

Rhaid i fanylebau TGAU Cymraeg Ail Iaith:

- adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc yn y cynnwys;
- fod yn berthnasol ac yn ystyrlon i ddysgwyr ar draws ystod o gyd-destunau, yn briodol i'w hystod oedran, eu diddordebau a'u haeddfedrwydd;
- annog dysgwyr i wneud cysylltiadau priodol gyda rhannau eraill o'r cwricwlwm er mwyn meithrin a dwysáu eu sgiliau dwyieithrwydd;
- adeiladu ar y sgiliau a bennir yn rhaglenni astudio cyfnodau allweddol 2 a 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol, a dylai'r fanyleb osod sylfaen briodol ar gyfer astudio ar Safon Uwch;
- fod yn addas i'w haddysgu ar draws rhaglen astudio ddwy-flynedd o fewn 120 o oriau dysgu o dan arweiniad;
- bennu ystod eang o gyd-destunau bras i'w haddysgu a'u hasesu sydd, yn eu cyfanrwydd, yn gyfoes ac yn ddiwylliannol berthnasol.

Sgiliau iaith

Rhaid i fanylebau sicrhau cyfleoedd i ddatblygu ac i asesu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu wedi eu integreiddio.

Rhaid i fanylebau sicrhau fod dysgwyr yn medru:

Gwrando:

- deall ac ymateb i wahanol fathau o iaith ar lafar mewn cyd-destunau penodedig, er enghraifft sgysiaid, cyflwyniadau, adroddiadau newyddion, rhaglenni teledu a mewnbwn wedi'i recordio gan un neu fwy o siaradwyr mewn lleoliadau cyhoeddus a chymdeithasol;

- adnabod y brif neges, y prif bwyntiau, manylion penodol a safbwyntiau sy'n cael eu cyfathrebu mewn darnau o iaith lafar hir a byr.

Darllen:

- deall ac ymateb i iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau a ysgrifennwyd at amrywiaeth o ddibenion ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys:

- gohebiaeth,
- erthyglau,
- gwybodaeth ar-lein,
- deunyddiau marchnata,
- testunau llenyddol,
- gwybodaeth ddiagramatig,
- gwybodaeth gyhoeddus,
- a chyfarwyddyd;

[Bydd rhaid i'r fanyleb bennu'r ffurfiau ysgrifenedig penodol y bydd disgwyl i ymgeiswyr fedru ymateb iddynt.]

- deall y brif neges, y prif bwyntiau, manylion penodol a gwahanol safbwyntiau mewn amrywiaeth o destunau ysgrifenedig hir a byr, syml a chymhleth, sydd yn defnyddio gwahanol Amserau;
- dirnad ystyr o fewn amrywiaeth o destunau ysgrifenedig hir a byr, gan gynnwys rhai sydd yn ymdrin â phynciau haniaethol, deunydd anghyfarwydd a pheth iaith fwy cymhleth, gan ddehongli ystyron ymhlyg lle bod hynny yn briodol;
- gallu sganio am wybodaeth benodol o fewn deunydd ysgrifenedig estynedig ac aml-ffurf.

Siarad:

- cyfathrebu a rhyngweithio'n ddigymell ac yn effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau penodedig ac at wahanol ddibenion, gan gynnwys cyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn, a gofyn ac ateb cwestiynau;
- defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi a chynnal cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys gofyn cwestiynau er mwyn cael eglurhad o ystyr a chael gwybodaeth;
- cynnal sgysiau a thrafodaethau gan wneud pwyntiau estynedig a chyfuno amrywiaeth o frawddegau a phatrymau iaith;
- addasu iaith ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac ystod o sefyllfaoedd, gan ddefnyddio cywair priodol, ynganu'n glir a goslefu'n briodol;

Ysgrifennu:

- ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion ar draws ystod o gyd-destunau pennodedig;
- ysgrifennu yn gywir wrth ddefnyddio brawddegau, patrymau iaith a geirfa syml a chyfarwydd i gyfleu ystyr a gwybodaeth yn effeithiol;
- ysgrifennu'n estynedig a dealladwy er mwyn cyfleu ffeithiau, syniadau a safbwyntiau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion, gan gynnwys ysgrifennu:
 - disgrifiadol ac adroddiadol
 - perswadiol a chyfarwyddiadol
 - creadigol a dychmygus
 - beirniadol / mynegi barn
- defnyddio ystod o wahanol ffurfiau ysgrifenedig, er enghraifft llythyrau, negeseuon e-bost, erthyglau, dyddiaduron, poster, storïau a blogiau;
- defnyddio patrymau iaith syml yn gywir;
- defnyddio gwahanol amserau'r ferf;
- gwneud defnydd creadigol o iaith, gan amrywio ac addasu geirfa a phatrymau iaith, arddull a chywair yn fwriadol at wahanol ddibenion;
- addasu iaith, gan gynnwys iaith a chywair anffurfiol a ffurfiol, ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac ystod o sefyllfaoedd;
- cyfieithu testunau byr a syml o Saesneg i'r Gymraeg i drosi'r brif neges ac ystyr gan wneud defnydd cywir o iaith.

Gofynion iaith a gramadeg

Rhaid i fanylebau TGAU Cymraeg Ail Iaith sicrhau bod dysgwyr yn gorfod arddangos eu bod yn defnyddio'r wybodaeth a dealltwriaeth ganlynol o iaith a gramadeg wrth gyfathrebu yn y Gymraeg.

[Mae'r penawdau isod wedi eu cymryd o'r atodiad iaith yn y manylebau cyfredol – ar hyn o bryd, mae'r rhain wedi eu haenu, felly bydd angen ailedrych ar gyflwyniad y rhain.]

Berfau – personau, ffurfiau ac amserau
Cwestiynnau – ffurfiau gofynnol
Rhagenwau – syml a pherthynol
Ansoddeiriau

Y fannod
 Cysyllteiriau
 Arddodiaid
 Enwau
 Amser a dyddiadau
 Rhifolion a threfnolion
 Adferfau
 Cyfarchion
 Strwythurau idiomatig
 Priod-ddulliau aml eu defnydd
 Cymalau enwol
 Treigladau

Amcanion asesu

Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y fanyleb dargedu'r amcanion asesu canlynol, yn unol â'r pwysoliadau a roddir:

Amcanion Asesu		Pwysoliad
AA1	Gwrando – deall ac ymateb i wahanol fathau o iaith lafar mewn cyd-destunau amrywiol	20%
AA2	Darllen – deall ac ymateb i amrywiaeth o iaith ysgrifenedig mewn amryw o gyd-destunau	25%
AA3	Siarad – cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau	30%
AA4	Ysgrifennu – cyfathrebu'n effeithiol at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd	25%

Gofynion asesu

Rhaid i fanylebau TGAU Cymraeg Ail Iaith gynnwys asesiad nas cynhelir drwy arholiad, sy'n cyfrannu at 50% o bwysoliad asesiad y cymhwyster, gan adlewyrchu pwysoliad cyfunol yr amcanion asesu ar gyfer siarad a gwrando.

Rhaid i asesiadau nas cynhelir drwy arholiad gael eu cynnal ar ddyddiadau penodol a bennwyd gan y corff dyfarnu.

Rhaid i unrhyw asesiadau o sgiliau siarad sicrhau fod ymgeiswyr yn gorfod cyfathrebu a rhyngweithio ar lafar yn ddigymell.

Rhaid i gynllun a threfniadau gweinyddol yr asesiadau nas cynhelir drwy arholiad sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y canlyniadau.

Rhaid i TGAU Cymraeg Ail Iaith fod yn ddi-haen.

Rhaid i ymgeiswyr sefyll o leiaf 75% o'u hasesiadau yn ystod blwyddyn derfynol y cwrs gan gynnwys yr holl asesiadau ar ffurf arholiad ac o leiaf hanner eu hasesiad o siarad a gwrando.

Gall y cyfarwyddiadau i ymgeiswyr yn yr asesiadau fod yn y Saesneg, ond bydd rhaid i'r cwestiynau eu hunain fod yn y Gymraeg.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Pencarn Lane
Imperial Park
Coedkernew
Casnewydd
NP10 8AR
ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Copïau ychwanegol

Gallwch fynd at y ddogfen hon ar wefan Cymwysterau Cymru yma: